



Ebrill 2026

Annwyl ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn y swydd Dirprwy CADY yn Ysgol Penglais. Fe fyddwch yn ymuno â'r ysgol mewn amser cyffrous wrth i ni fyw ein gweledigaeth yr ysgol.

'Mae Ysgol Penglais yn ysgol hapus, uchelgeisiol, amrywiaethol a llwyddiannus lle mae pob un yn cael ei barchu a'i werthfawrogi.' Rydym yn gweithio'n galed gyda staff, disgyblion, rhieni a'r corff llywodraethol i sicrhau fod Ysgol Penglais yn ffynnu i fod yr ysgol arbennig y mae'r gymuned yn ei haeddu. Rydym yn gweithio'n barhaus i gyrraedd y safonau uchaf o ran cyrhaeddiad disgyblion, ymddygiad a safon dysgu ac addysgu.

Mae gennym gorff o staff profiadol sydd yn gweithio'n galed tra'n llwyddo i greu naws cynorthwyol a chyfeillgar. Mae'r disgyblion eisiau llwyddo yn uchel ac eisiau cael eu herio a'u cefnogi i wneud hynny. Mae yna lawer o anghenion gwahanol yn yr ysgol ac mae'r adran gynhwysol yn gweithio'n galed ar draws yr ysgol i gefnogi'r disgyblion pan bo'r angen. Mae'r 6ed ddsbarth yn gryf gyda tua 230 o ddisgyblion ac yn cyrraedd safonau uchel iawn.

Wrth ymuno ag Ysgol Penglais, fe fyddwch yn cael eich cefnogi yn broffesiynol i gyrraedd rhagoriaeth yn eich swydd. Gallaf addo i chi brofiad heriol ond a fydd yn y pendraw yn brofiad gwerthfawr wrth i ni symud ymlaen i fod yn ysgol ragorol.

Mae'r wybodaeth yn y pecyn yn rhoi darlun o'r ysgol i chi. Pe dymunech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Helena Clements ar hcl@penglais.org.uk neu ffoniwch 01970 624811.

Edrychaf ymlaen i dderbyn eich ffurflen gais.

Yn gywir,

Mair Hughes
Pennaeth

Pennaeth / Pennaeth:- Ms Mair Hughes



GWELEDIGAETH YSGOL PENGLAIS: Anelu am Ragoriaeth

Mae Ysgol Penglais yn un hapus, uchelgeisiol, amrywiaethol a llwyddiannus lle mae pob un yn cael ei barchu a'i werthfawrogi. Rydym yn gymuned gynhwysol gref, lle mae pawb yn gofalu am ei gilydd. Wrth ddatblygu ein sgiliau annibynnol a gweithio gyda staff, teuluoedd ac eraill yn y gymuned fe wnawn lwyddo a chyflawni ein gorau. Mae'r ysgol yn gymuned egniol gyda myfyrwyr a staff yn cydweithio, yn dysgu, yn meddwl ac yn gweithio'n galed. Rydym yn galluogi ein disgyblion i wynebu heriau ac yn cydnabod fod hyn yn allweddol i'w datblygiad unigol. Wrth ddatblygu dewrder, hyder, gwytnwch, annibyniaeth a goddefgarwch bydd ein myfyrwyr yn dod yn ddinasyddion cyfrifol yn eu cymunedau, yng Nghymru ac yn y byd.



GWERTHOEDD YSGOL PENGLAIS

Bod yn barchus a charedig

Bod yn uchelgeisiol a gwydn

**Datblygu annibyniaeth, hyder
a chyfrifoldeb**

**Croesawu amrywiaeth a dathlu
llwyddiannau**

**Bod yn ddinasyddion balch a
gweithgar yn ein cymunedau**





Dirprwy CADY (MPS + TLR 2c)

Rydym yn awyddus i benodi Dirprwy CADY ysbrydoledig fydd yn gallu cefnogi yr adran Cynhwysiant er mwyn sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ffynnu ar yr her o weithio gyda'n tîm o athrawon a disgyblion i sicrhau bod yr ansawdd dysgu ac addysgu yn gyson o safon dda a rhagorol; bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau yn ôl eu anghenion, a bod pob disgybl yn ymgynhyrdd yn uchel, yn gwneud cynnydd rhagorol ac yn datblygu eu hyder. Byddwch yn rwymedig i ddod o hyd i dulliau cynhwysfawr sydd yn ysbrydoli disgyblion ac yn gwella cyfleoedd bywyd ein holl ddisgyblion.

Mae hwn yn gyfle gwych i ymgeisydd uchelgeisiol gael chwarae rôl allweddol i gynyddu uchelgeisiau a llwyddiannau ein disgyblion, gan ganolbwyntio yn arbennig ar ein disgyblion sydd gyda anghenion dysgu ychwanegol, ac felly yn cyfrannu at siwrnai Ysgol Penglais i fod yn ysgol ragorol.

Mae gan Ysgol Penglais lawer i'w gynnig:

- ysgol sydd yn seiliedig ar waith ymchwil gyda pherthnasau da rhwng staff a disgyblion
- ymroddiad i ddatblygiad proffesiynol staff er mwyn cyrraedd rhagoriaeth
- agos i dref Prifysgol bywiog Aberystwyth
- wedi ei leoli ar arfordir bendigedig bae Ceredigion, ardal o hyfrydwch naturiol

Am fwy o fanylion, cysylltwch a Helena Clements (PA i'r Pennaeth) ar 01970 624811 neu drwy e-bost hcl@penglais.org.uk

Mae Ysgol Penglais yn ymrwymedig i ddiogelu ac annog budd a lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus, ac yn disgwyl i holl staff a gwirfoddolwyr rannu yr ymrwymiad hwn.

Bydd raid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn barod i ymgeisio am DBS a'r archwiliadau eraill sydd yn addas ar gyfer y swydd.

Mae Ysgol Penglais yn gyflogwr sydd yn sicrhau cyfleoedd cyfartal.

Dyddiad cau: Dydd Gwener 1af o Fai

Dyddiad cyfweiliadau: 7fed o Fai



Dirprwy Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)

Teitl y swydd:	Dirprwy Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)
Gradd cyflog:	MPS + TLR 2c
Atebol i:	Pennaeth Cynorthwyol (CADY)
Atebol am:	Sgiliau am Oes, HLTA, Cynorthwywyr addysgu

Pwrpas Craidd:

Cefnogi'r gwaith o ddarparu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol o ansawdd uchel, gweithio mewn partneriaeth gref ac arweinyddiaeth ADY a chynhwysiant

Atebolrwydd allweddol:

- Bod yn gyfrifol am arweinyddiaeth a rheolaeth o ddydd i ddydd Sgiliau am Oes
- Goruchwylio gweithredu ac effeithiolrwydd ymyriadau llythrenedd/rhifedd a'r rhai sy'n gysylltiedig ag iechyd a datblygiad emosiynol
- Cefnogi datblygiad diwylliant cynhwysol lle mae pob dysgwr yn derbyn y gefnogaeth, yr her a'r ddarpariaeth bersonol sydd eu hangen arnynt
- Hyrwyddo disgwyliadau uchel, tegwch a pherthnasoedd cadarnhaol, gan sicrhau bod pob dysgwr – yn enwedig y rhai sydd ag ADY neu rwystrau ychwanegol – yn cyflawni eu potensial llawn
- O dan gyfarwyddyd rhesymol y Pennaeth, cyflawni dyletswyddau proffesiynol athro ysgol fel y nodir yn y Ddogfen Gyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD) gyfredol

Atebolrwydd allweddol	Tasgau allweddol
Bod yn gyfrifol am arweinyddiaeth a rheolaeth o ddydd i ddydd Sgiliau am Oes	<ul style="list-style-type: none">• Darparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol Sgiliau am Oes (SaO), gan sicrhau darpariaeth gyffredinol, wedi'i thargedu ac yn arbenigol o ansawdd uchel• Arwain a goruchwylio'r holl brosesau ADY, gan gynnwys creu, adolygu a sicrhau ansawdd Cynlluniau Datblygu Unigol (IDPs) ar gyfer disgyblion yn Sgiliau am Oes• Dylunio cwricwlwm pwrpasol a fydd yn diwallu anghenion pob grŵp o ddisgyblion yn Sgiliau am Oes, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at Gwricwlwm i Gymru sydd yn eang, cytbwys ac uchelgeisiol• Darparu arweinyddiaeth i staff o fewn Sgiliau am Oes er mwyn sicrhau cyflawni'r cwricwlwm yn effeithiol i bob grŵp o ddisgyblion• Trefnu amserlenni staff sy'n addysgu yn SfL a disgyblion sy'n cael mynediad i'r uned i sicrhau bod pob disgybl yn gallu cyflawni'r lefel uchaf bosibl• Defnyddio data a thystiolaeth i fonitro cynnydd, lles ac ymgysylltiad yr holl ddysgwyr sy'n cael mynediad at Sgiliau am Oes

	<ul style="list-style-type: none"> • Ansawdd sicrhau addysgu a dysgu o fewn Sgiliau am Oes • Trefnu hyfforddiant a chymorth priodol i staff yn ôl yr angen • Gweithio gydag asiantaethau allanol a'r gymuned leol i ddod o hyd i gyfleoedd i disgyblion gael profiadau gwaith a dysgu y tu allan i'r uned • Sicrhau bod staff yn deall ac yn bodloni eu dyletswyddau ynghylch addasiadau, gwahaniaethu a hygyrchedd rhesymol • Addysgu o fewn SaO y nifer o wersi a ddyrannwyd
Rheoli Darpariaeth a Staff	<ul style="list-style-type: none"> • Rheoli staff o fewn Sgiliau am Oes ac aelodau eraill o staff fel y cytunwyd gyda'r CADY • Sicrhau defnyddio, hyfforddi a goruchwyllo staff cymorth o fewn SaO yn gyson • Goruchwyllo ymyrraeth sy'n gysylltiedig ag iechyd a datblygiad emosiynol • Cefnogi'r CADY i ymgorffori ymarfer cynhwysol ar draws yr ysgol
Gweithio gydag Asiantaethau Allanol	<ul style="list-style-type: none"> • Adeiladu a chynnal partneriaethau effeithiol gyda: <ul style="list-style-type: none"> ○ Timau ALI Ceredigion ○ Seicolegwyr Addysgol ○ Gwasanaethau iechyd a therapi ○ Gofal cymdeithasol ○ Gwasanaethau ieuenctid a phartneriaid trydydd sector • Cydlynu gwaith aml-asiantaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth, gan sicrhau rhannu gwybodaeth a chynllunio ar y cyd
Addysgu, Dysgu a Datblygiad Proffesiynol	<ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo addysgeg gynhwysol o ansawdd uchel ar draws yr ysgol trwy hyfforddi, modelu a datblygu staff • Cyfrannu at fentrau addysgu a dysgu ysgol gyfan sy'n gwella hygyrchedd ac ymgysylltu • Cefnogi cyfadrannau i weithredu addysgu addasol, dylunio cyffredinol ar gyfer dysgu a strategaethau gwahaniaethu priodol
Ymddygiad, Lles a Diogelu	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio ar y cyd â'r CADY i sicrhau bod systemau'n cefnogi anghenion dysgwyr ADY o fewn SaO • Cyfrannu at ddadansoddi data ymddygiad, lles a phresenoldeb ar gyfer disgyblion yn SaO • Cefnogi gweithdrefnau diogelu'r ysgol • Cefnogi'r CADY i sicrhau bod y tîm ADY yn dilyn disgwyliadau diogelu a lles
Dysgu Proffesiynol a Datblygiad Staff	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglenni dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ADY, addysgeg gynhwysol, ymddygiad ar gyfer dysgu a dyletswyddau statudol • Darparu arweiniad i ANG, athrawon TAR a staff newydd ar brosesau ADY • Cefnogi athrawon i ddefnyddio strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr amrywiol • Hyrwyddo diwylliant o ymarfer myfyriol wedi'i alinio â'r model dysgu proffesiynol cenedlaethol

Arweinyddiaeth a Gwella Ysgolion	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at gynllun hunanwerthuso (SER) a gwella yr adran ADY a Chynhwysiant • Cyfrannu at arweinyddiaeth a monitro mentrau strategol sy'n gysylltiedig â chynhwysiant, ADY, hygyrchedd a thegwch
Ymgysylltu â Rhieni a'r Gymuned	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau cyfathrebu cryf â rhieni/gofalwyr dysgwyr ag ADY yn SaO, gan gynnig cefnogaeth, arweiniad a diweddariadau rheolaidd • Hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol rhwng y cartref a'r ysgol, gan gefnogi ymgysylltu mewn adolygiadau IDP a chyfarfodydd cynllunio • Dirprwyo ar gyfer yr CADY mewn cyfarfodydd partneriaeth lleol a fforymau ADY • Hyrwyddo cyfathrebu dwyieithog a sicrhau gwybodaeth hygyrch i bob teulu
Dyletswyddau Gweithredol a Gweinyddol	<ul style="list-style-type: none"> • Cadw cofnodion ADY cywir a chyfredol yn unol â disgwyliadau cyfreithiol • Rheoli cyllidebau SaO sy'n gysylltiedig â darpariaeth, adnoddau a rhaglenni ymyrraeth ADY (fel y'u dirprwywyd) • Cefnogi'r trefniadau mynediad i arholiadau i sicrhau cyflwyniadau amserol • Sicrhau prosesau ar gyfer pontio (cynradd-uwchradd; CA4-ôl-16) yn gadarn ac yn canolbwyntio ar y dysgwr

Nid yw'r disgrifiad swydd hwn o reidrwydd yn ddiffiniad cynhwysfawr o'r swydd. Bydd yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, ond gall fod yn destun addasiad neu ddiwygio ar unrhyw adeg ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd

Manyleb y Person – Dirprwy Gydllynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo)

Meini Prawf	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau a Statws Proffesiynol	<ul style="list-style-type: none"> • Statws Athro Cymwysedig (QTs) • Cymhwyster lefel gradd • Tystiolaeth o ddysgu proffesiynol parhaus mewn ADY a/neu gynhwysiant 	<ul style="list-style-type: none"> • Cymhwyster ôl-raddedig mewn ADY neu Gynhwysiant, yn ddelfrydol gan gynnwys asesiad arbenigol unigol • Hyfforddiant arbenigol mewn IDPs, ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person neu hygyrchedd •
Profiad	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad sylweddol o weithio'n uniongyrchol gyda dysgwyr ADY • Profiad o arwain timau neu reoli staff • Effaith brofedig yn gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed neu ADY • Profiad o weithio gyda rhieni/gofalwyr 	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o reoli swyddogion ADY, TA neu staff arbenigol • Profiad o sefydlu/arwain seiliau meithrin, lles neu arbenigol • Profiad o ddarparu ADY ysgol gyfan neu DPP cynhwysiant • Profiad o gefnogi prosesau IDP a gweithio aml-asiantaeth

		<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o weithio gyda asiantaethau allanol
Gwybodaeth a dealltwriaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth am Ddeddf ALNET, Cod ADY a dyletswyddau statudol ar gyfer ysgolion yng Nghymru • Dealltwriaeth gref o strategaethau addysgu cynhwysol ac addysgeg addasol • Gwybodaeth am ddulliau adferol a pherthynol sy'n seiliedig ar drawma • Dealltwriaeth o ddiogelu, dyletswyddau cydraddoldeb a lles dysgwyr • Gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru a goblygiadau ar gyfer ADY 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth am weithdrefnau ALL Ceredigion a llwybrau ADY rhanbarthol • Dealltwriaeth o fframweithiau Ffynnu / Meithrin neu ddulliau therapiwtig • Dealltwriaeth o Ddylunio Cyffredinol ar gyfer Dysgu (UDL)
Sgiliau Arweinyddiaeth a Rheoli	<ul style="list-style-type: none"> • Y gallu i arwain, ysbrydoli ac ysgogi staff ar bob lefel • Sgiliau cyfathrebu, rhyngpersonol a meithrin perthynas cryf • Y gallu i ddadansoddi data a defnyddio tystiolaeth i ysgogi gwelliant • Y gallu i arwain rheoli perfformiad a darparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel • Y gallu i ymateb yn dawel, yn broffesiynol ac yn effeithiol o dan bwysau 	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o fonitro/dehongli data ADY, presenoldeb neu ymddygiad cymhleth • Profiad o reoli cyllidebau neu adnoddau
Diogelu	<ul style="list-style-type: none"> • Hyfforddiant diogelu cyfredol ac ymrwymiad i ddiogelu dysgwyr 	<ul style="list-style-type: none"> •
Rhinweddau Personol	<ul style="list-style-type: none"> • Ymrwymiad i weledigaeth, gwerthoedd ac ethos cynhwysol yr ysgol • Disgwyliadau uchel i bob dysgwr a chred mewn tegwch ac ymarfer adferol • Deallusrwydd emosiynol, gwytnwch a'r gallu i aros yn dawel o dan bwysau • Sgiliau trefnu cryf a'r gallu i reoli blaenoriaethau cystadleuol • Myfyriol, rhagweithiol ac ymrwymedig i ddysgu proffesiynol parhaus 	



	<ul style="list-style-type: none">• Ymrwymiad i ddiwylliant Cymru ac addysg ddwyieithog	<ul style="list-style-type: none">• Y gallu i sgwrsio'n hyderus yn Gymraeg (neu barodrwydd i ddysgu)
Gofynion eraill	<ul style="list-style-type: none">• Y gallu i weithio'n hyblyg a chefnogi arweinwyr ar draws yr ysgol• Clirio DBS	

Ebril 2026